# CANLLAW AR GYFER YMWELD AG YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD

*Mae annog dysgwyr i feithrin ymdeimlad o angerdd a balchder yn eu hunain, eu cymunedau a'u gwlad yn ganolog i'r pedwar diben (*y Cwricwlwm i Gymru*). Dylai dysgwyr gael eu trwytho yn nealltwriaeth o'r hunaniaethau, y tirluniau a'r gwahanol hanes sy'n dod at ei gilydd i ffurfio'u 'cynefin'. Bydd hyn nid yn unig yn eu galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles eu hunain, ond hefyd yn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth o hunaniaeth pobl eraill a chreu cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanes mewn mannau eraill yng Nghymru a ledled y byd.*

*Cwricwlwm i Gymru*, *Cynllunio cwricwlwm yng Nghymru, i Gymru* ar www.hwb.gov.wales

**Mae eglwysi a Christnogion yn amlwg yn rhan bwysig o'r ddealltwriaeth yma o 'gynefin' a dylid felly manteisio ar y cyfle i ymweld a chyfrannu at gwricwlwm ysgol ac Addoli ar y Cyd.**

**Os y byddwch yn bwriadu ymweld ag ysgol:**

- Cofiwch wneud apwyntiad â'r Pennaeth Ysgol, hyd yn oed os ydych yn adnabod aelod arall o'r staff.
- Cofiwch mai rhywun wedi eich gwadd i'r ysgol ydych chi.
- Cofiwch wisgo'n addas. Gofynnwch i aelod o'r staff beth sy'n dderbyniol.
- Byddwch yn glir beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch: faint o'r gloch a lle'r ydych i fod; faint o amser sydd gennych; beth yw oed a gallu'r dysgwyr y byddwch yn eu hannerch, ayb.
- Gweddïwch o flaen llaw, a gallech ofyn i eraill weddïo tra'r ydych yn yr ysgol.
- Byddwch yn brydlon! Cyrhaeddwch yn fuan a pheidiwch â mynd dros eich amser neu byddwch yn amhoblogaidd gyda'r staff! Yn hytrach anelwch at orffen munud neu ddau yn gynnar gan fod gorffen rhai munudau'n hwyr yn gallu drysu amserlen ysgol am weddill y dydd.
- Byddwch yn gyson ac yn ddibynadwy. Er na fydd athrawon yn gwerthfawrogi galwad ffôn munud olaf yn dweud na fedrwch fod yno, mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â'r ysgol os nad ydych yn gallu bod yn bresennol i weithgaredd a drefnwyd ymlaen llaw.
- Dylai bod aelod o staff gyda chi bob amser i warantu eich cyfraniad ac er mwyn sicrhau ymarfer da. Cyfrifoldeb athrawon yw sicrhau disgyblaeth gan eich gadael chi'n rhydd i wneud eich cyflwyniad.
- Cofiwch ein bod yn cyflwyno ein hunain mewn ysgol fel Cristnogion, ac yn mynegi ein safbwynt a'n cred ein hunain: peidiwch â chymryd bod y dysgwyr yn arddel yr un safbwyntiau â chi. Ni ddylwn efengylu rhag cael ein cyhuddo o broselyteiddio neu genhadu.
- Holwch y Pennaeth Ysgol a oes gofyn i chi arwyddo datganiad ynglŷn a Diogelwch Plant ynghyd â chael eich gwirio trwy'r DBS.
- Mae ein gwaith ysgol yn fwy nag arwain Addoli ar y Cyd. Gallai fod yn fwy buddiol ar y dechrau i feithrin perthynas â'r ysgol drwy amrywiaeth o weithgareddau, e.e. darllen gyda'r plant, chwaraeon, mentora, cyfrannu at waith dosbarth penodol, cyfrannu at gynllun 'Agor y Llyfr', ayb.
- Cofiwch gynllunio yn ofalus gan gydweithio gyda staff yr ysgol - bydd hyn yn dylanwadu ar agwedd y staff tuag atoch.
- Byddwch yn ymwybodol o ystod oedran wrth baratoi cyflwyniadau Addoli ar y Cyd ac ystod gallu mewn gwersi.
- Mae'n fanteisiol holi am themâu penodol sydd gan yr ysgol er mwyn i'ch gwaith gefnogi gwaith yr ysgol.
- Efallai y bydd y dysgwyr yn rhoi eu llinyn mesur arnoch. Byddwch yn naturiol a dangoswch barch iddynt ar bob achlysur. Os byddwch yn trafod gyda hwy, cofiwch fod ganddynt hawl i fod â gwahanol farn i chi, yn union fel y mae gennych chi hawl i ddweud yn glir yr hyn yr ydych chi'n ei gredu.
- Does dim angen cael eich hun i ddadl benboeth neu geisio ennill pwyntiau trwy ennill dadl. Cofiwch eich bod eisiau cael eich gwahodd yn ôl i'r ysgol!
- Cofiwch nad oes rheidrwydd ar y Pennaeth Ysgol na'r athrawon i'ch gwahodd yn ôl i'r ysgol.
- Yn dilyn eich ymweliad: anfonwch neges e-bost neu lythyr neu ffoniwch i ddiolch i'r staff a'r dysgwyr.

Vaughan Salisbury: 2022 © *Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru 2022*